Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bethel
# Y Caban
# Ysgol Gynradd
# Bethel
# Gwynedd
# LL55 1AX

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bethel yn cyfarfod mewn portacabin o fewn cae`r ysgol ger Ysgol Gynradd Bethel . Pentref bach yw Bethel tua 4 milltir o Gaernarfon yng Ngwynedd . Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r pentref a'r ardal gyfagos sydd yn gymuned Gymreig wledig nodweddiadol. Mae'r lleoliad yn disgrifio cefndir y plant un sy`n amrywiol yn gymdeithasol - economaidd ond ar y cyfan yn gymharol ffyniannus.

Mae'r lleoliad yn cael ei weinyddu gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac yn ddarparwr addysg a gefnogir gan Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Gwynedd . Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng 2½ oed a 3 oed ac yn gweithredu am 5 bore'r wythnos rhwng 8.45 y bore a 10.45 y bore yn ystod y tymor ysgol. Ar hyn o bryd mae 13 o blant ar y gofrestr ac mae 4 ohonynt yn dair oed ac yn cael eu hariannu. Bydd y plant yn dechrau yn yr ysgol gynradd yn y Medi wedi ei 3ydd penblwydd.

Daw'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith . Ar adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw blant o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu'r lleoliad , neu blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol . Mae'r lleoliad , fodd bynnag, yn croesawu plant o bob cefndir a gallu .

Mae'r brif ystafell yn gynnes ac wedi`i dodrefnu yn ddeniadol gan gynnwys enghreifftiau o waith y plant. Mae'r ystafell wedi`i gwahanu'n briodol i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ardal chwarae y tu allan wedi'i ffensio ac yn darparu ardal ar gyfer y plant i chwarae'n ddiogel . Nid oes gan y plant fynediad rhydd i'r tu allan ac nid oes ardal gysgodol y tu allan ar gyfer y plant i chwarae.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd a 2 gymhorthydd , pob un ohonynt â chymwysterau a phrofiad perthnasol. Maent i gyd yn siaradwyr Cymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) ym mis Mehefin 2007 ac wedi'i gofrestru i ddarparu ar gyfer 19 o blant .

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Estyn yn 2008 . Mae'r argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Performiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- y gofal, cefnogaeth a`r arweiniad mae`r plant yn eu mwynhau;
- y bartneriaeth gyda rhieni a`u cefnogaeth;
- gwaith y pwyllgor rheoli;
- y cyfleoedd dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- ymddygiad ac agwedd y plant.

### Rhagolygon gwella

Rhagolygon Gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- y gefnogaeth weithredol gan y pwyllgor rheoli;
- ansawdd yr hunanarfarnu a`r cynllunio datblygu;
- mae`r arweinydd a`r staff yn agored i newid a syniadau newydd;
- y gefnogaeth sy`n cael ei darparu gan athrawes gefnogi`r Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio`i weithdrefnau asesu.

A2 cynllunio gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda i allu plant unigol er mwyn eu herio.

A3 parhau i ddatblygu cysylltiadau a`r ysgol gynradd sy`n derbyn y plant.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd ac yn darparu `r plant ag ystod ddiddorol o weithgareddau. Mae`r cynllunio yn fanwl ac yn cynnwys cyfeiriad at ddatblygu sgiliau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu a rhifedd plant yn gydlynol ac yn cael ei hymgorffori ym mrofiadau pob plentyn.

Mae profiadau dysgu'r plant yn cynnwys gweithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau TGCh a'u medrau creadigol . Mae`r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd tu fewn a thu allan gyda dychymyg ac mae hyn yn darparu `r plant â phrofiadau newydd sy'n datblygu eu medrau yn effeithiol.

Ar y cyfan , fodd bynnag , nid yw`r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar allu unigol y plant ac nid yw`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn cael eu nodi'n glir.

Mae cyfleoedd da yn cael eu darparu i'r plant ddatblygu eu sgiliau personol a`u hunaniaeth ddiwylliannol . Mae`r plant yn cael cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd ac yn unigol . Mae'r lleoliad hefyd yn rhan annatod o'r gymuned leol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a gwyliau Cymreig , fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r plant hefyd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod leol . Mae dathliadau`r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn ymestyn gwybodaeth y plant o ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae`r plant yn profi ystod eang o brofiadau dysgu ar draws pob maes dysgu . Mae gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth eang o'r Cyfnod Sylfaen , ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu. Maent yn ennyn diddordeb y plant ac yn diddori`r plant yn llwyddiannus ac yn defnyddio cwestiynu yn dda , yn enwedig i ddatblygu sgiliau iaith y plant. Maent yn fodelau rôl da ac mae hyn yn ddylanwadol wrth ddatblygu perthynas dda rhwng oedolion a phlant.

Mae'r staff yn sensitif i anghenion y plant ac yn gwybod pan fydd angen cymorth arnynt. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan ymarferwyr.

Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o adnoddau gan gynnwys offer digidol i gymell y plant. Mae'r staff yn adnabod eu plant yn dda ac yn ymwybodol o'u gallu.

Mae`r plant yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb - mae hyn yn cynnwys plentyn yn “Helpwr y Dydd” bob dydd.

Mae holi a thrafod yn cael eu defnyddio'n dda i ddatblygu medrau meddwl y plant . Mae cyflawniad a chynnydd y plant yn cael eu cofnodi gyda lluniau anodedig o waith plant yn eu " Llyfr Trysor " .  Mae hyn yn darparu cofnod da o`r hyn mae`r plant wedi ei gyflawni ac yn cael ei groesawu gan y rhieni . Fodd bynnag mae`n gyfyngedig o ran darparu sail dda ar gyfer cynllunio gwaith sy`n cyfateb yn dda i anghenion plant ac o ran cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant . Fodd bynnag, mae'r fformat newydd o gadw cofnodion sydd wedi ei gyflwyno`n ddiweddar gan y Sir wedi`i gynllunio`n dda i gofnodi cyflawniad unigol bob plentyn a bydd hyn yn gymorth i nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniad , lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles plant wedi eu sefydlu'n dda ac yn effeithlon gan wneud cyfraniad sylweddol at eu datblygiad .

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach - gwelwyd hyd yn oed y plant ifancaf yn golchi eu dwylo heb anogaeth gan oedolyn . Mae`r plant yn dechrau deall egwyddor cynaliadwyedd fel compostio a chasglu papur gwastraff . Nodwedd nodedig y lleoliad yw ansawdd da iawn y berthynas sy'n amlwg. Mae`r plant yn cael eu trin â pharch ac yn gwybod y bydd oedolion yn eu helpu os oes angen. Maent yn dangos lefelau uchel o hunan - hyder ac yn ddigon hapus i siarad gyda'r arolygydd . Mae'r lleoliad yn cyflogi strategaeth ymddygiad cadarnhaol ac yn cynnwys plant yn y tacluso a`r clirio yn ogystal â rhoi cyfrifoldeb iddynt .

At ei gilydd, mae datblygiad ysbrydol , moesol , cymdeithasol a diwylliannol y plant yn cael blaenoriaeth uchel ac yn gwneud cyfraniad effeithiol i ddatblygiad plant .

Mae pob plentyn yn hapus yn y lleoliad, maent yn cael eu croesawu bob bore yn gynnes ac mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig i gymryd rhan mewn gweithgareddau a osodir ar eu cyfer .

Mae trefniadau da yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac er nad oes neb yn bresennol ar hyn o bryd, mae`r lleoliad yn adrodd ar nifer o blant yn y gorffennol sydd wedi elwa o Gynllun Cyfeirio Gwynedd. Mae cysylltiadau effeithiol wedi cael eu sefydlu gyda'r uned Therapi Lleferydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu .

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos croesawgar y lleoliad yn nodwedd nodedig o `r Cylch . Mae`r staff yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn eu cynnwys mewn gweithgareddau a osodir ar eu

cyfer yn gyflym. Mae`r plant yn dangos eu bod yn hapus i ddod i'r lleoliad ac mae unrhyw blentyn sy`n dangos pryder yn derbyn sicrhad a dealltwriaeth. Mae gan bob plentyn hawl gyfartal i'r holl weithgareddau ac mae ganddynt ystod dda o ddeunyddiau i ddewis ohonynt.

Mae'r staff yn adnabod eu plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion . Mae'r polisi "drws agored " yn rhoi cyfle i rhieni sgwrsio gyda'r staff.

Mae'r plant yn elwa o amgylchedd dysgu sy'n gweddu'n dda i anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystafell addysgu yn gynnes , yn ddeniadol ac mae`r adnoddau yn dda. Mae`r ardaloedd yn cael eu neilltuo ar gyfer gweithgareddau penodol ac mae`r adnoddau wrth law. Mae'r ardal awyr agored yn gyfagos i'r lleoliad, ac yn hawdd mynd ati. Mae yno adnoddau ar gyfer chwarae`r plant ac ar gyfer gweithgareddau eraill. Fodd bynnag, nid yw plant yn cael mynediad rhydd i'r tu allan, ac nid oes ardal dan do lle gallant chwarae.

Mae`r cyfleusterau yn galluogi'r lleoliad i dderbyn plant ag anableddau corfforol.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio gan ymarferwyr â chymwysterau da sy`n siarad Cymraeg. Mae'r adeilad y tu ôl i'r ysgol gynradd ac yn ddiogel gan fod mynediad iddi drwy iard yr ysgol.  Mae'r drws wedi'i gloi fel na all neb ddod i mewn neu adael heb rybudd

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r lleoliad yn dangos syynwyr cryf o bwrpas sy`n canolbwyntio ar ddarparu'r profiadau dysgu gorau i bob plentyn. Ers ei phenodiad yn ddiweddar, mae`r arweinydd wedi rheoli`r lleoliad yn dda ac wedi goruchwylio gwelliant yn y ddarpariaeth, y tu mewn i'r ystafell ddosbarth a thu allan. Mae'r holl bolisïau perthnasol yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol . Mae'r rhain yn cynnwys manylion y drefn gwyno , er bod hyn erioed wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm gan ategu a chefnogi ei gilydd . Mae'r berthynas gyda rhieni a'r pwyllgor rheoli yn gadarnhaol ac maen nhw wedi gweithio'n dda i sefydlu darpariaeth sydd ag adnoddau da . Maent i gyd yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth yn ôl y blaenoriaethau sy`n cael eu gosod.

Mae ethos cadarnhaol y lleoliad yn amlwg ac yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor rheoli . Mae pob un yn rhannu gwerthoedd cyffredin yn seiliedig ar ddarparu`r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer y plant , yn canolbwyntio ar eu datblygiad academaidd a phersonol .

Mae`r staff sy'n mynychu cyrsiau yn rhannu eu harbenigedd proffesiynol gyda chydweithwyr ac mae system arfarnu effeithiol yn ei lle.

**Gwella ansawdd: Da**

Ers ei phenodiad yn ddiweddar mae`r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi mabwysiadu ymagwedd hunan-werthusol gan nodi meysydd i`w datblygu`n glir. Mae`r diffygion yn y ddarpariaeth wedi cael eu gwella wrth i`r sefyllfa ariannol ganiatáu, mae blaenoriaethau wedi`u sefydlu a`r canlyniad yw lleoliad sydd ag adnoddau da.

Mae`r ymarferwyr yn gallu dangos sut y mae'r ddarpariaeth a safonau cyflawniad y plant wedi cael eu gwella. Mae hyn yn cynnwys datblygu ardal weithgareddau y tu allan.

Mae'r ddogfen hunan-arfarnu a gynhyrchwyd yn ddiweddar yn asesiad cywir o'r lleoliad ac mae`r cynllunio ar gyfer y dyfodol yn fanwl ac yn realistig.

Mae rhieni yn gwerthfawrogi`r hyn sydd wedi cael ei wneud.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi bod yn nodwedd dda a nodedig o ran sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth ac yn dilyn hynny mewn cyflawniadau a lles plant. Mae rhieni wedi bod yn chwarae rhan weithredol ac mae'r atebion i'r holiaduron rhieni yn nodi eu boddhad cryf â'r lleoliad.

Mae'r rhieni yn ymwybodol iawn o gynnydd eu plant ac wedi gwneud sylwadau ffafriol ar eu datblygiad ieithyddol. Mae rhieni hefyd yn mynychu'r lleoliad i weld y gwaith mae eu plant wedi ei wneud ac i`w clywed yn perfformio . Mae'r lleoliad yn gwahodd rhieni i fore agored ym mis Ebrill ac i ymweld cyn i'w plentyn ddechrau yn y Cylch. Mae'r lleoliad yn croesawu barn ac adborth rhieni ac yn dosbarthu'r holiadur blynyddol iddynt. Hefyd, mae parti diwedd tymor lle mae rhieni yn medru gweld y gwaith mae`r plant wedi ei wneud. Mae'r " Llyfr Trysor " yn gofnod o'r hyn y mae pob plentyn wedi'i gyflawni.

Mae cysylltiadau ar waith gyda'r ysgol gynradd leol. Mae bod yn agos i'r ysgol yn hwyluso trosglwyddo y plant ond yn gyffredinol nid yw`r cysylltiadau wedi'u datblygu'n ddigonol .

Mae'r lleoliad yn elwa o gefnogaeth gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol ac o gynrychiolydd Mudiad Meithrin . Mae gan y lleoliad gysylltiadau defnyddiol â sefydliadau perthnasol ac yn gwybod â phwy i gysylltu pan fydd angen cymorth ychwanegol ar y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu harfarnu'n ofalus gan y pwyllgor rheoli ac mae mentrau diweddar wedi arwain at ddarpariaeth o adnoddau o ansawdd da. Mae`r adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi`r dysgu.

Mae staff y lleoliad yn rhannu eu gwybodaeth broffesiynol ac mae hyn yn sicrhau addysgu o ansawdd da.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'nfodlonâ'rlleoliadyngyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 10<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynynhoffi'rlleoliadhwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 10<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafoddfymhlentyngymorthi ymgartrefu'ndda pan ddechreuoddyn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynyngwneudcynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant ynymddwynynddayn y lleoliad. |
| | | 70% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'raddysguyndda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yntrinpobplentynyndeg a gydapharch. |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 9 | 7<br>78% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caifffymhlentyneiannogifod yniach ac iwneudymarfercorffynrheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynynddiogelyn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 10 | 5<br>50% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fymhlentynyncaelcymorthychwanegolpriodolmewnperthynasagunrhywanghenionunigolpenodol. |
| | | 64% | 25% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'ngryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'ngryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child’s progress. | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'ncaelgwybodaethgyson am gynnyddfymhlentyn. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nteimlo’ngysurusynglŷn â gofyncwestiwni'rlleoliad, gwneudawgrymiadauneunodi problem. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 7 | 1 | 0 | 0 | 2 | Rwy'ndealltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion. |
| | | 70% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 30% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 9 | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'nddaargyfersymudymlaeni'rysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuymweliadau. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'rlleoliadyncaeleiredegyndda. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |